| | |
|---|---|
| Dyddiad: | 27 Mehefin 2002 |
| Lleoliad: | Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| Teitl: | Targedau Staffio ar gyfer y GIG yng Nghymru |

**Diben**

1. Rhoi manylion i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynyddu lefelau staffio yn y GIG yng Nghymru a darparu targedau ar gyfer y cynnydd hwn.

**Argymhellion**

2. Gwahoddir aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i nodi'r targedau staffio sy'n cael eu pwysleisio.

**Rhagarweiniad**

3. Mae'r Cynllun i Gymru 2001, a gyflwynwyd gan Brif Weinidog Cymru ym mis Hydref 2001, yn nodi'r ymrwymiad i gynyddu lefelau staffio a nifer y gweithwyr proffesiynol gofal iechyd sy'n cael eu hyfforddi. Caiff hyn ei fesur yn yr ymrwymiad i weld cynnydd o 65 y cant yn nifer y meddygon sy'n cael eu hyfforddi a 35 y cant yn nifer y nyrsys sy'n cael eu hyfforddi erbyn 2003-2004.

4. Cyflwynwyd canlyniadau Data Cynllunio'r Gweithlu ar gyfer 2001 i'r Pwyllgor ar 5 Rhagfyr 2001. Cytunwyd y byddai targedau staffio'n cael eu gosod unwaith y byddai gwybodaeth o'r Ymddiriedolaethau a'r Awdurdodau Iechyd wedi'u dilysu gan Brif Weithredwyr a'r amrywiol broffesiynau yng Nghymru.

**Targedau**

5. Cafwyd cynnydd o 8,400 yn nifer cyffredinol y staff a gyflogir yn uniongyrchol gan y GIG yng Nghymru ers 1997, cynnydd o dros 12 y cant.

6. Ar sail nodi gwasanaethau gofynion staffio'r dyfodol, nifer y myfyrwyr sy'n hyfforddi yn y proffesiynau gofal iechyd, a datblygiadau o ran recriwtio a chadw staff, mae'r targedau canlynol wedi'u gosod ar gyfer Cymru.

7. Erbyn 2010 mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i gynyddu nifer y gweithwyr proffesiynol gofal iechyd sy'n gweithio yn y GIG yng Nghymru o:-

**700** o Ymgynghorwyr mewn Ysbytai ac Ymarferwyr Cyffredinol - (staff presennol mewn swyddi 3,390)

**6,000** o Nyrsys – (staff presennol mewn swyddi 35,521)

**2,000** o weithwyr proffesiynol eraill mewn Gofal Iechyd – (staff presennol mewn swyddi 9,237).

8. Bydd y cynnydd hwn yn digwydd trwy gael ymagwedd genedlaethol a lleol gydlynus tuag at gynllunio, addysg a hyfforddiant a recriwtio a chadw staff yn y dyfodol. Ar sail y targedau cyffredinol ar gyfer Cymru, gosodir targedau unigol cyn bo hir ar gyfer pob Ymddiriedolaeth a Bwrdd Iechyd Lleol.

9. Mae'r gwaith o ddatblygu strategaeth a chynllun gweithredu ar gyfer recriwtio a chadw staff yn genedlaethol wedi dechrau ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor ym mis Gorffennaf. Edrychir ar y defnydd o staff yn y GIG drwy archwilio dulliau o weithio sy'n fwy effeithlon ac effeithiol, a thrwy hynny wella cynhyrchiant.

10. Rhoddwyd manylion i'r Pwyllgor am adolygiad o'r broses cynllunio'r gweithlu ym mis Hydref 2001. Roedd hyn yn cynnwys datblygu grwp llywio aml-broffesiynol trosfwaol, sy'n cael ei sefydlu ar hyn o bryd, ac a fydd yn cael ei gadeirio gan Gyfarwyddwr y GIG yng Nghymru. Bydd y Grwp yn rhoi arweiniad cenedlaethol a chyfarwyddyd strategol ar faterion sy'n ymwneud â datblygu'r gweithlu yn unol â blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd hefyd yn asesu ac yn dilysu anghenion gweithlu'r gwasanaeth drwy'r broses cynllunio'r gweithlu ac yn datblygu dulliau o weithio a fydd yn galluogi'r anghenion hyn i gael eu diwallu. Bydd angen i'r dulliau hyn o weithredu gynnwys ystyriaeth o fathau newydd o weithwyr, hy cymysgedd o sgiliau a dylunio swyddi, dulliau arloesol o weithio a hyblygrwydd, gan gynnwys hyblygrwydd o ran darpariaeth addysg ac hyfforddiant. Bydd Adolygiad Adnoddau addysg a hyfforddiant yn bwydo i'r trafodaethau hyn.

**Cynnydd mewn comisiynau addysg a hyfforddiant**

11. Mae'r targedau ar gyfer cynyddu nifer y meddygon a'r nyrsys sy'n cael eu hyfforddi eisoes ar y ffordd i gael eu cyflawni.

***Meddygon* -**

- Mae nifer y myfyrwyr meddygol wedi codi o 190 o fyfyrwyr y flwyddyn ym 1998 i 290 o fis Medi 2001, sef cynnydd o 52 y cant. Ystyrir cynyddu'r nifer hwn i 70 o leoedd eraill y flwyddyn drwy gynllun i raddedigion yn Abertawe. Bydd hyn yn mynd â chyfanswm y myfyrwyr meddygol yng Nghymru i 360 o fyfyrwyr y flwyddyn.

- Ar hyn o bryd mae 758 o swyddi Cofrestryddion Arbenigol yng Nghymru. Yn unol â Chynllun GIG Cymru, bydd cynnydd o 60 o swyddi erbyn diwedd 2003.

- Mae 197 o swyddi Swyddog Tai Cyn-Cofrestru gyda 19 ychwanegol yn 2002 a fydd yn codi i 47 erbyn 2004.

***Nyrsys -***

- Mae comisiynau hyfforddi ar gyfer lleoedd hyfforddi i nyrsys cyn-cofrestru wedi codi o 904 y flwyddyn ym 1999 i 1203 yn 2001. Mae hyn yn golygu bod cyfanswm nifer y lleoedd ar gyfer myfyrwyr nyrsio wedi codi o 2,664 ym 1999-2000 i 3,216 yn 2001-2002.

- Mae hyn yn golygu bod cynnydd o 27 y cant yn y lleoedd hyfforddi eisoes wedi digwydd. Disgwylir cyrraedd y targed llawn o 35 y cant eleni.

***Proffesiynau Perthynol i Iechyd -***

- Gwelwyd cynnydd hefyd yn nifer y lleoedd hyfforddi ar gyfer Proffesiynau Perthynol i Iechyd o 494 y flwyddyn ym 1999-00 i 649 yn 2001-02. Erbyn 2003-04 bydd hyn wedi codi ymhellach i 681.

**Casgliadau**

12. Bydd y targedau staffio a nodir yn y papur hwn yn ychwanegu at y cynnydd yn y lefelau staffio sydd eisoes wedi digwydd ers 1997. Mae nifer cyffredinol y staff a gyflogir yn uniongyrchol gan y GIG yng Nghymru wedi codi 8,400 ers hynny, cynnydd o dros 12 y cant.

13. Ochr yn ochr â'r cynnydd parhaol yn niferoedd y gweithwyr proffesiynol iechyd sy'n gweithio yn y GIG mae angen sicrhau bod y gweithlu'n cael ei ddefnyddio'n effeithiol. Y Grwp Datblygu'r Gweithlu newydd fydd y sianel ar gyfer archwilio sut y gellir datblygu'r gweithlu a rolau 'r holl staff gofal iechyd er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r sgiliau a'r talentau helaeth sydd eisoes ar gael yn y GIG yng Nghymru.

**Materion ariannol**

14. Mae'r targedau staffio yn y papur hwn yn cwmpasu cyfnod o 8 mlynedd. Ystyrir y goblygiadau o ran costau ar gyfer y 3 blynedd gyntaf fel rhan o Gylch Cynllunio Cyllideb 2002. Bydd angen ychwanegu goblygiadau costau'r dyfodol at Gylchoedd Cynllunio Cyllidebau'r dyfodol.

**Cydymffurfio â'r Cynulliad**

15. Mae gan y Cynulliad awdurdod dirprwyedig dros faterion gweithlu'r GIG o dan adran 2 o Ddeddf GIG 1977. Mae swyddogaethau'r Cynulliad o dan y Ddeddf GIG hyd yma a ddirprwywyd i Brif Weinidog Cymru, wedi'u dirprwyo i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Nid oes unrhyw fater o reoleidd-dra na phriodoldeb.

**Cyswllt: Stephen Redmond, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, GIG Cymru**